## Cystadleuaeth tynnu enwau am wobr casgen ddŵr Hafren Dyfrdwy (HD) Telerau ac Amodau

### 1. Telerau cymryd rhan

Mae cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn ddi-dâl. Y dyddiad dechrau ar gyfer cymryd rhan yw [22 Medi 2025] am [12YP]. Y dyddiad cau ar gyfer cymryd rhan yw [10 Hydref 2025] am [5YH]. Ni chaiff cynigion eu hystyried ar ôl y dyddiad neu'r amser hwn.

Mae'r cyfrifoldeb ar bob ymgeisydd i sicrhau eu bod wedi darllen a chadw at reolau'r gystadleuaeth a amlinellir yn y manylion cymryd rhan yn ein cystadleuaeth a'n telerau ac amodau. Trwy gyflwyno cais, mae pob ymgeisydd yn cytuno â'r rheolau a ganlyn:

I gymryd rhan yn y gystadleuaeth, dylai ymgeiswyr [Cwblhau'r cwis a'r ffurflen ar-lein gyda'u henw a'u cyfeiriad e-bost]. Rhoddir pob cynnig a dderbynnir erbyn 5YP ar y dyddiad cau sef 10 Hydref 2025 yn y gystadleuaeth tynnu enwau am ddim am wobr.

Caiff unrhyw gynnig y canfyddir nad yw'n cydymffurfio â rheolau'r gystadleuaeth ei ddiarddel. Yn y cyfryw achosion, fforffedir unrhyw wobrau.

Os oes unrhyw gwestiynau, a fyddech cystal â chysylltu â [Marketing@severntrent.co.uk].

Mae penderfyniad Hafren Dyfrdwy ar bob mater yn ymwneud â'r gystadleuaeth yn derfynol ac yn rhwymol. Ni ddechreuir ar unrhyw drafodaeth na gohebiaeth.

Mae HD yn cadw'r hawl i atal neu i addasu'r gystadleuaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

### 2. Pwy a all gymryd rhan?

Mae'r gystadleuaeth yn agored i gwsmeriaid preswyl Hafren Dyfrdwy [18 mlwydd oed neu hŷn], ac eithrio cyflogeion yr hyrwyddwr, eu teuluoedd, asiantau neu unrhyw drydydd parti sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r gystadleuaeth.

### 3. Dewis a hysbysu'r enillydd

**Dewis enillwyr:** Bydd 5 enillydd yn cael eu dewis ar hap o'r holl gynigion ar-lein a gwblhawyd ar yr 17eg o Hydref, 2025 yn Hafren Dyfrdwy, Packsaddle, Rhostyllen, Wrecsam LL14 4DU.

Dewisir [5] enillydd, a hysbysir yr enillydd trwy [e-bost] erbyn [24 Hydref]. Os na chlywch gan HD erbyn y dyddiad hwn, yna ni fu'ch cynnig yn llwyddiannus.

Cadwn yr hawl i ddewis enillydd arall yn y digwyddiad os oes gennym seiliau rhesymol tros gredu bod enillydd wedi torri unrhyw un o'r telerau a'r amodau hyn.

Os nad yw enillydd yn ymateb i gysylltiad trwy e-bost, byddwn yn gwneud ymdrechion ailadroddus rhesymol i gysylltu â hwy. Os na ellir cysylltu â hwy o fewn tair wythnos o ddyddiad y tynnu enwau, cadwn yr hawl i ddewis ar hap enillydd yn ei le.

**4. Gwobrau'r gystadleuaeth**

[Offer casgen ddŵr 200 litr]

Ni fydd gan yr ymgeisydd buddugol hawl i unrhyw swm o arian sy'n gyfatebol i'r gwobrau, a bydd yn rhaid defnyddio'r gwobrau er defnydd personol ac ni ellir eu gwerthu i neb arall.

**5. Diogelu data**

Mae HD yn "rheolwr" data personol am ymgeiswyr ac mae'n gyfrifol am sicrhau y defnyddir data personol mewn ffordd sy'n cydymffurfio â deddfau diogelu data (yn cynnwys Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679 ("GDPR") a Deddf Diogelu Data 2018 ("DPA")). Bydd HD yn cadw ac yn prosesu pob data personol yn unol â'i Addewid i Gwsmeriaid a geir yn Preifatrwydd | Cyfreithiol | Cymorth a Chysylltu | HD Cymru

Bydd HD yn casglu gwybodaeth am ymgeiswyr o'r hyn y caiff yr ymgeisydd ei adnabod i brosesu'i gynnig yn y gystadleuaeth ac i drefnu ar gyfer dyrannu gwobrau. Bydd hyn yn cynnwys eu henw a'u manylion cysylltu.

Bydd HD yn casglu data personol yn uniongyrchol gan ymgeiswyr pan fônt yn cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth.

Bydd HD yn storio, yn defnyddio ac yn prosesu data personol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r gystadleuaeth. Gall HD ond defnyddio data personol lle mae'r gyfraith yn caniatáu hynny, neu lle mae ganddi sail gyfreithiol dros wneud felly. Wrth brosesu data personol mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth, bydd HD yn dibynnu ar gydsyniad yr ymgeiswyr ac ar rieni neu warcheidwaid yr ymgeisydd ac ar fuddiannau cyfreithlon HD wrth farchnata a hyrwyddo'i wasanaethau.

Bydd data personol ond yn cael ei gadw tan y dyddiad cau ac wedyn am amser rhesymol ar ôl hynny, yn dibynnu ar: unrhyw gyfreithiau neu reoliadau y mae'n ofynnol i HD eu dilyn; unrhyw anghydfod cyfreithiol rhwng HD, ymgeisydd ac/neu unrhyw drydydd parti, a chais cyfreithlon gan ymgeisydd neu awdurdod rheoliadol i gadw'r data personol, ac eithrio:

- Os yw ymgeisydd yn cyflwyno cynnig buddugol, cedwir ei ddata personol tan y bydd HD yn derbyn cadarnhad ei fod wedi derbyn ei wobr.
- Bydd HD yn cadw enwau unrhyw ymgeiswyr tra bo ffotograffau y maent wedi'u cyflwyno yn cael eu cynnwys a'u dangos yn unol â chymal 5, oni bai bod yr ymgeisydd yn tynnu'i gydsyniad yn ôl i'w defnyddio trwy gysylltu â ni: **Marketing@severntrent.co.uk**

Os yw ymgeisydd yn dymuno gweithredu'i hawliau o ran ei ddata personol yn cael ei gadw mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth a amlinellir yn ein Haddewid i'r Cwsmer (gweler y dolenni uchod), dylai gysylltu â Swyddog Diogelu Data HD trwy anfon e-bost at dataprotection@severntrent.co.uk neu dîm cwsmeriaid HD trwy ffonio 0330 678 0679.

**6. Manylion y Trefnydd**

Hafren Dyfrdwy, Packsaddle, Rhostyllen, Wrecsam LL14 4DU.

E-bost: [Marketing@severntrent.co.uk]. (Cysylltwch â'r cyfeiriad e-bost hwn gydag unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r gystadleuaeth, os gwelwch yn dda).

**7. Cyfraith Rheoli**

Rheolir y telerau a'r amodau hyn gan gyfraith Cymru a Lloegr.